The Coal Cutters Dream - John Wood

Ganwyd John Wood ym Mhen Y Bryn, hanner milltir o'r parc. Gweithiodd ym Mhenalltau am 35 mlynedd fel torrwr glo a glöwr. Pan ddaeth i'r pwll glo yn y lle cyntaf roedd y cwbl yn waith llaw, rhawiau a cheibiau ac yn y blaen. Yn nes ymlaen cyflwynon nhw ddulliau mecanyddol, a'r peiriant hwnnw oedd yn cynhyrchu'r glo i gyd. Roedd yn beiriant gwydn, gwydn iawn a swnllyd iawn, iawn. Roedd yn rhwygo glo allan. Byddai peiriant fel hwn yn cynhyrchu 50 tunnell o lo mewn sifft a lleihaodd yr angen am nifer fawr o bobl i symud glo â llaw.

Rhan o'r ysbrydoliaeth y tu ôl i 'The Coal Cutters Dream' oedd ei bod hi'n oer a gwlyb iawn pan oedd y gweithwyr yn gweithio dan ddaear. Pan fydden nhw'n cymryd egwyl, i gael cinio neu rywbeth, bydden nhw'n pwyso yn erbyn eu peiriant am ei fod yn gynnes, gan ei fod wedi bod yn gweithio ac roedd y ffrithiant yn ei wneud yn gynnes. Felly bydden nhw'n pwyso yn erbyn y peiriant, yn bwyta eu brechdanau ac yna, syniad ddaeth gan yr artist, bydden nhw'n synfyfyrio ac yn meddwl am fywyd uwchlaw'r ddaear.

Doedd hi ddim fel gweithio yn Woolworths, dyna ddywediad cyffredin y byddai glowyr yn ei ddefnyddio o hyd, "dydyn ni ddim yn gweithio yn Woolowrths byt"